WG35.5.120

# MARWNAD

ER

Coffadwriaeth am ddau Frawd (naturiol ac) yn y Weinidogaeth yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd, yn Bancyfelin, Swydd Gaerfyrddin,

SEF,

# WILLIAM A JOHN LEWIS,

Y rhai a ymadawsant â'r byd hwn,—y cyntaf, Mawrth y 22ain, 1834, yn yr 20fed flynedd o'i oedran; a'r ail, Ebrill y 14eg, yn y 18fed flynedd o'i oedran.

GAN THOMAS NATHAN, BANCYFELIN.

---

2 SAM. I. 25, 26.

"Pa fodd y cwympodd y cedyrn yn nghanol y rhyfel! Jonathan, ti a laddwyd ar dy uchelfaoedd. Gofid sydd arnaf am danat ti, fy mrawd Jonathan: cu iawn fuost genyf fi: rhyfeddol oedd dy gariad tuag ataf fi, tu hwnt i gariad gwragedd."

---

*A gymmeradwywyd gan Gyfarfod Misol y Sir, yn Nghaerfyrddin, Mai y 15fed,* 1834.

---

1 O FY mrodyr a'm cyfeillion,
Mae fy nghalon 'nawr yn friw,
Achos tòri rhai o'm ffryndiau
Lawr gan angau o blith y byw;
Holl drigolion Swydd Gaerfyrddin,
Yn gyffredin, (wyllt a gwâr,)
Dewch ynghyd i gyd i gŵyno,
Ac i wylo'r dagrau'n da'r;
Ar ol JOHN a WILLIAM LEWIS,
Frodyr dawnus gyda'r gwaith,
Rhai sydd heddy' gwedi blaenu,
At y teulu i ben eu taith!

X205311355X

2 Gwaith rhoi rhai'n i lawr i orwedd
Oddifewn i'r dewredd dir,
Mae rhyw riddfan a galaru
I'w ryfeddu'n ngodrau'r Sir!
Teimlo bloesgni ar fy nhafod,
A rhyw gryndod ynwy'r wy';
Arnaf ofn na chaf eiriau
'Draethu eu rhinweddau hwy;
Blodau heirdd yn ngardd yr Arglwydd,
Oedd y rhai'n, a chain eu gwedd.
Ond er hyny, y maent heddy'
Gwedi tewi yn y bedd.

3 Rhyw ddirgelwch anchwiliadw'
Sydd yn nghadw gyda Duw;
Cym'ryd ymaith neb y mŷno,
Mae, a gado'r llall yn fyw!
Ond rhyfedda' peth o bobpeth
Fod yn arfaeth Duw ystôr,
(I'w cyfranu i feibion dynion.)
O fendithion fel y môr;
Gair y llŵ sy'n eithaf cadarn,
Arfaeth Duw nid aiff o'i lle,
Hyd nes delo plant y tònau
Adre'n iach i deyrnas ne'.

4 Tua Banc y Felin traethwyd
Y gwirionedd amser maith,
Ac heb lwyddiant anghyffredin
Lawer blwyddyn ar y gwaith;
Ond o'r diwedd, Duw'r amynedd,
Doeth a rhyfedd, ddaeth â'r fraint
O gael gweled tyrfa newydd
'N dod yn hylwydd at y saint:
Yn eu plith ca'dd rhai'n a enwais
Ddod yn gynhes at y gwaith,
Ac yn ffyddlon iawn hwy fuon'
Gyda'r moddion dros eu taith.

5 Yn yr Ysgol, pwy mor fuddiol,
A rhinweddol, â hwynt-hwy?
Ac yn mhob cyfarfod gweddi,—
Ond ni chaf eu gweled mwy!
Brodyr siriol, doeth, a grasol,
A sylweddol oeddech chwi,
Nid peth bach yr amser hyny
All'sai mo'n gwahanu ni:
'Rwyf yn methu bod yn foddlon,
(Duw faddeuo mod mor ffol,)
A phe bawn yn wylo'm llygaid,
Ni cha'u gweled byth yn ol!

6 Pan bwy'n cofio y blynyddoedd,
A rhifedi'r misoedd maith,
A dreuliasom yma'n gysson,
Fwyn gyfeillion, ar ein taith;
Prin 'rwy'n credu eu bod heddy'
Mewn oer letty'n wael eu gwedd,
Ond rhaid d'wedyd, er mawr ofid,
Eu bod (hefyd) yn y bedd!
"Heb un aflwydd trist na thramgwydd,
"Ond dystawrwydd hylwydd hy',
"Nac anniben dwyll cenfigen
"Ddiras yn y ddaear ddû."

7 Mil dedwyddach ynt hwy heddy',
'Rwyf yn credu, 'n nhŷ eu Tad,
Na bod yma ar y ddae'ren,
A chael bod yn berchen gwlad;
Yno'n seinio Haleliwia
I'r hwn fu farw ar y pren,
Yn mhlith myrdd o waredigion,
Ac â choron ar eu pen!
Cwympwyd cedyrn yn y rhyfel,
Cerbyd Israel ddaeth i'w hol,
Ac er cymmaint sydd yn wylo,
Ni ddont etto byth yn ol.

8 Ar brydnawn dydd Gwener Croglith, (1829.)
(Gallwn enwi'r fan a'r lle,)
Ca'dd y rhai'n eu hargyhoeddu,
(Gan oleuni mawr o'r ne',)
Pan oedd un yn "son am Iesu,
"'Rhwn fu'n gwaedu ar y gro's,
"Creigiau'n hollti, haul yn t'wyllu,
"Canol dydd fel canol nos!"
Gwaeddu ma's am ras wnaeth WILLIAM,
Yno'n fuan, gyda JOHN;
Ac 'rwy'n credu eu bod heddy'
'N canu am y fynyd hon!

9 JOHN a ga'dd ei alw'n mlaenaf
I'r cynhauaf, at y gwaith
O bregethu 'fengyl Iesu
I'r hen deulu sydd yn gaeth;
Triniai bynciau mawrion crefydd
Mor gyfarwydd ac mor hardd,
Galwai bawb yn fwyn at Iesu,
'Rhwn fu'n chwys'u yn yr ardd!
Un ar bymtheg oed yn dechreu,
Deunaw mis bu yn y gwaith!
Prin 'rwy'n credu ei fod heddy'
Gwedi blaenu i ben ei daith!

10 Yn Nghydweli bu'n pregethu,
Cofio hyny maent hwy gyd,
Y tro olaf (rhyfedd ydoedd!)
Y pregethodd yn y byd;
Attolygu 'roedd bryd hyny
"Rhoddi eu cyrff yn aberth byw,
"Santaidd (iawn) a chymmeradwy,
"Er mwyn trugareddau Duw."
Y deuddegfed o'r Rhufeiniaid,
'R adnod flaenaf, meddynt hwy,
Oedd ei destun y pryd hyny,
Ond ni chant ei glywed mwy.

11 (Dwywaith oll pregethodd WILLIAM,)
Ni bu IOAN ddim yn hir,
Cyn ei roddi lawr i orwedd
Oddifewn i'r oeredd dir!
Yma'n gynnar, er mawr alar,
Lawr i'r ddaear yr aeth e',
Lle mae'n gorwedd mewn oer gulfedd,
Gwely llygredd, gwaela' lle!
Yn y cwrddau hwyr a borau,
Yno'n ddiau mwy ni ddaw,
Ni chaf mwyach gyfarch iddo
Trwy fud gydio yn ei law.

12 Y mae'r Eglwys yn galaru,
(A'u rhieni,) druain tlawd;
Hwyr a boreu maent yn wylo
Wrth adgofio am eu brawd!
Peidiwn tòri'n calon etto,
Mae Duw'n addo bod o'n plaid
Ond i ni ymddiried ynddo,
Ni gawn ganddo nerth wrth raid;
Harddwch mawr i'r man lle byddai,
Oedd y rhai'n, a blodau'r Sir;
'Rwy'n rhoi hèr i bawb a'u clywodd,
Ammau 's nad yw hyn yn wir.

13 Wrth droi'm golwg tua'r 'steddle,
Man lle byddai pan yn fyw,
Pob peth yno'n dweyd yn groyw,
Yma heddyw ef nid yw;
Edrych wedy'n ar y pulpid,*
Hwnw'n d'wedyd yn ei iaith,
Eu bod wedi bod yn ffyddlon
Fel cenadon gyda'r gwaith;
Ac nid oes un dyn yn ammau
Nad ynt hwy yn canu fry;

---

* Yr hwn sydd wedi ei wisgo â brethyn dû a sidan

Byddwn barod bob diwrnod,
Dyna yw'n dyledswydd ni.

14 Cyfoeth mawr oedd yn eu meddiant,
(Nid wy'n gwybod ddim pa faint,)
Etto gyd y ffryndiau gorau
Feddent hwy a fyddai'r saint;
Cydymdeimlo wnaent yn rhyfedd
A'u holl waeledd, fel eu Tad,
Ac ymwelent â'r rhai cleifion
Yn dra chysson trwy'r holl wlad;
Taro'r balch a wnaent yn rymus,
Ond yn fedrus codi'r gwan,
Ac hyfrydwch ydyw hyny
Gan y rhai sy' â Iesu'n rhan.

15 Fe fu farw'r rhai'n er hyny,
Do, heb ofni dim o'r bedd;
Am eu bod yn glir yn gweled
Bod eu henaid 'myn'd i hedd.
Beth dâl imi 'nawr ddych'mygu
Peth sy'n croesi trefn Duw,
'Rhwn ei hun sydd wedi gosod
Lle preswylfod pob dyn byw?
O, am roi fy hunan iddo,
Treiglo'm gofal arno gyd,
A'i was'naethu yn ddiymmod
Nes i'r beddrod âf o'r byd.

16 Hwy ga'dd fyned at y seintiau
Sydd yn byw yn ngolau'r Oen,
Ac sy'n canu am eu gwared
O gaethiwed byd a'i boen;
Yn eu plith cant fyth i aros,
Oesi tragwyddoldeb mawr,
Ond rhyfeddol sy'n galaru
Gwaith eu colli ar y llawr!
Arglwydd, cymmer eu perth'nasau,
A'u holl ffryndiau i dy gôl;

Ni awn atynt hwy ar fyrder,
Ond ni ddont hwy fyth yn ol.

17 Erglyw, Arglwydd mawr y bywyd,
Gwrandaw gweddi wyt erio'd,
Ti ddywedaist amryw weithiau
Nad oes neb o'th fath yn bod;
Gwna gyflawni'th addewidion,
Sydd i'w gweled ini'n glir,
Rhai'n yn llawn o bob cysuron,
Oddifewn i'r Bibl pur;
Dyma'r cysur ga'dd y gene'l,
(Sef plant Israel,) gan eu Duw,
Os yw Moses wedi marw,
Mae Osea etto'n fyw.

18 Pan gymmeraist ti Elias
Fynu fry oddiar y ma's,
Dau parth llawn (a mwy) o'i ysbryd
Ga'dd ei roddi ar y gwas.
Y mae gair yn yr ysgrythyr
Sydd yn eglur ddweyd erio'd
Na fu unpeth ar y ddaear
Nad oes un o'i fath yn bod.
Arglwydd, dyro di dy Ysbryd
O fewn rhywrai etto'n ha'l,
I gael sefyll dros dy enw,
Yn ngŵydd holl brophwydi Baal.

19 'Rwy'n dymuno iti gofio
Am dy eiddo cyn bo hir,
A chwyd rywrai fynu etto
'Ledio'th braidd tua Chanaan dir;
Rhai fo'n danllyd yn eu hysbryd,
Rhai fo'n efengylaidd iawn;
Rhai fo'n llariaidd, megys Moses,
Rhai fo o rasusau'n llawn;
Cedyrn sydd yn cael eu priddo,
Ag oedd yn bugeilio'r praidd,

O gwna di, er mwyn dy enw,
Etto'n cadw rhag y blaidd!

20 Eu brawd ga'dd eu holl feddiannau,
(Nid aeth fawr i'r bedd erioed,)
Dyro gymhorth anghyffredin
Iddo ddilyn ôl eu troed:
Arglwydd Abraham ac Isra'l,
'Rhwn sy'n cynnal dae'r a nen,
A dywallto o'r uchelder
Fendith lawer ar ei ben.
Llwyr ymadael raid i minnau
A'm hoff ffryndiau oll i gyd,
Ac mi ro ffarwel yn fuan
Byth i'r cyfan sy'n y byd.

21 Mi ddystawaf yn bresennol,
Y mae'r gân yn myn'd yn faith;
Gwybod hefyd wyf y gwelwch
Nad oes harddwch ar fy ngwaith;
Fy holl feiau gwnewch eu celu,
Ac nid eu cyhoeddi ma's,
Hyn yn glir a wir ddymunaf,
Ydwyf eich ufyddaf was.
Dyma wyf yn daer ddymuno,
Sef cael *landio* uwch y nen,
A rho'ed siwrnai dda i chwithau,
Fy holl ffryndiau gyd, Amen.

---

☞ *Pwy bynag a anturio gyhoeddi y Farwnad hon, heb ganiatâd yr Awdwr, a fydd yn ddarostyngedig i gosp.*

W. EVANS a'i Gyf. Argraffwyr, Caerfyrddin.